

Duw Gras

Adnodau agoriadol:

“Trwy ras yr ydych wedi eich achub, trwy ffydd. Nid eich gwaith chwi yw hwn; rhodd Duw ydyw.” *Effesiaid 2: 8.*

“Gras a thangnefedd i chwi oddi wrth Dduw ein Tad a'r Arglwydd Iesu Grist.” *2 Thesalonïaid 1: 2.*

Emyn: 102 Caneuon Ffydd.

Gweddi agoriadol:

Gras yw ymwneud Duw â ni mewn cariad, trugaredd a thynerwch, yn ein derbyn fel yr ydym, yn maddau i ni ein pechodau, a thrwy Iesu Grist, yn ail-greu ei ddelw ei hun ynom. Y mae rhodd ei ras ar gael ond i ni bwyso ac ymddiried ynddo.

“Pwysaf arnat, addfwyn Iesu,
Pwyso arnat Ti;
Mae dy ras di-drai digeulan,
Fel y lli.”

F. R. Havergal, Cyf. Nantlais.

Gweddi:

Dduw grasol, molwn di,
am dy gariad tuag atom,
am dy waith drosom
ac am dy nerth ynom. Amen.

Cefndir:

Heb os, gair yr Apostol Paul yw “gras”. O'r cant a hanner o weithiau y mae'n ymddangos yn y Testament Newydd, y mae cant ohonyn nhw yn llythyrau Paul. Dyma'r gair sy'n gwneud y grefydd Gristnogol yn wahanol i bob crefydd arall, a phob ffordd arall o fyw. Duw ar ei orau

sydd yng ngweinidogaeth gras. Ym marn un, 'gras yw cariad sy'n cael ei arllwys gan Dduw ar bobl fel ni sydd ddim yn deilwng i'w dderbyn.' Fe ddywedodd un arall, "Duw ar ei hawddgaraf sydd yng ngweinidogaeth gras." "Dyma 'surprise' mawr Duw i ddynion" meddai un arall. Mae'n werth sylwi nad trwy gyflawni gweithredoedd da a byw bywyd rhinweddol, fel y dysgai'r grefydd Iddewig, y down i berthynas â Duw ond trwy ymateb i'w gariad grasol. Wrth i ni ymddiried ein bywyd iddo y mae profi dylanwad y gras dwyfol ar ein heneidiau.

Darllen: Rhufeiniaid 5: 1 – 11.

Cyfnod o ddistawrwydd neu'r organ i chwarae'n dawel:

Darllen: Rhufeiniaid 5: 12 – 21

Cyfnod o ddistawrwydd neu'r organ i chwarae'n dawel:

Cefndir y darlleniad:

Mae Paul yn y bennod hon yn 'gorfoleddu' yn ei berthynas â Duw. Cyn i Iesu ddod i'r byd nid oedd neb yn gallu bod yn agos at Dduw. Duw pell, oeraidd oedd Duw. I rai, Duw dieflig oedd. Ar y gorau dieithryn oedd Duw. O sylweddoli fod Duw yn dad, bryd hynny y gallwn deimlo agosatrwydd a pherthynas newydd sbon. Y gair a ddefnyddia Paul yw 'cyfiawnhad'. Yn yr ail adnod cyfeirir "cawsom ffordd, trwy ffydd, i ddod i'r gras hwn yr ydym yn sefyll ynddo" Beth yw ystyr y fynedfa neu'r ffordd hon? Mae dau ddarlun yn cynnig eu hunain i ni.

Y darlun cyntaf yw'r darlun o rywun yn cael ei gyflwyno ger bron y breiniol a'r brenhinol. Mae Iesu fel petai'n ein cyflwyno i Dduw, a phan agorir y drws yr hyn fydd yn ein disgwyl yw gras – nid condemniad, na barn, na chynddaredd dim ond caredigrwydd na ellir ei ddirnad.

Darlun arall a dynnir, yn y gair hwn, yw darlun o harbwr, porthladd neu hafan. Tra oedden ni'n brwydro ar ein pennau'n hunain, brwydr ddyddiol oedd hi a chynddaredd y môr yn cau amdanom. O ddibynnu ar ein nerth ein hunain digon tymhestlog a brochus oedd hi. Ond bellach mae tawelwch a hafan, trwy Grist, yn eiddo i ni. Gwyddom bellach am

y tawelwch a'r tangnefedd sy'n dod, nid ohonon ni, ond sy'n dod yn uniongyrchol oddi wrth Dduw.

Mae Ieuan Glan Geirionydd, ym mhennill olaf ei emyn adnabyddus, yn sôn am gael mynediad "i'r porthladd tawel clyd, o sŵn y storm a'i chlyw, y caf fynediad llon ryw ddydd" ond i'r Cristion mae'r sicrwydd hwn yn brofiad pob dydd yng nghwmniâeth Duw. Gan fod Iesu wedi dod i'n byd mae gennym fynediad i bresenoldeb y Brenin, a thrwy hynny, dderbyn a phrofi ei ras yn helaeth.

Mae Paul yn mynd rhagddo i drafod gorthrymderau sy'n gallu bod yn fagl ac yn felltith i'r Cristion. Gwyddai ef yn dda am "droeon y daith" gan ei fod ef ei hun wedi dioddef dros ei Arglwydd. Beth sy'n gorthrymu'r Cristion? Pryder, poen, profedigaeth, gwrthwynebiad, unigrwydd – mae'r rhain i gyd yn eu tro yn creu dewrder a gwroldeb neu fel mae'r bennod yn cyfeirio at y 'gallu i ymddâl' adn 3. Hwn yw'r gwroldeb sy'n gallu gorchfygu'r byd. Nid derbyn ond gorchfygu mae'r dewrder hwn.

A dyma sy'n creu cymeriad cadarn. Bydd yr hwn sy'n gorchfygu yn dod allan o'r frwydr yn gadarnach, gryfach, yn burach ac yn well person yn y pen draw. Dyma'r dewrder sy'n esgor ar obaith. Dydi'r gobaith hwn byth yn siomi neb gan ei fod yn dod o Dduw.

Fe ddywedodd rhywun, "Dydw i ddim yn rhy hoff o argyfyngau ond mi ydw i'n ymfalchïo yn y cyfleoedd maen nhw'n eu cynnig i mi."

Cyfnod o ddistawrwydd i fyfyrrio:

Gweddi:

Weithiau, Arglwydd
mae argyfyngau a stormydd bywyd
yn curo mor drwm ac egr
fel na fedrwn ni godi'n pennau.
Mae eu grym yn ein sigo
a'n gwneud i feddwl
tybed oes yna dangnefedd a thawelwch.
Caddug o'n cwmpas ymhob man.
Dim golwg o hafan na phorthladd,
dim ond môr cynddeiriog,

tymhestlog a brochus.
Ton ar ôl ton,
argyfwng ar ôl argyfwng,
corwynt ar ôl corwynt,
a ninnau'n cael ein taflu
ar drugaredd y tonnau
fel llong heb lyw.

Felly mae bywyd yn aml, Arglwydd,
ac mae chwilio am 'owns' o
dangnefedd
yn ein llethu.
mae'na gyfnodau
pan ydyn ni'n
rhy wantan
i chwilio
a chwalu.
Digon ydi dal i gynnal bywyd
yn rhyferthwy'r stormydd a'r treialon.

Ydyn, mi rydyn ni'n gwybod
ein bod yn trio'n rhy galed,
ceisio rhedeg y byd
yn ein stêm ein hunain,
ac os na fyddwn ni wrthi o'i hochr i,
bydd y byd yn stopio'n
stand.

Dangos i ni drwy'r oedfa hon, Arglwydd,
fod angen i ni chwilio
am yr hafan,
y porthladd tawel,
y llonyddwch,
y tawelwch
y tangnefedd.

Soniodd Iesu'n gyson
am "fy nhangnefedd"
"fy nhangnefedd yr wyf yn ei roi i chwi."
Rhodd.
Agorwn ein bywydau
heddiw
i dderbyn y rhodd hon.
Dydy ni ddim yn haeddu'r rhodd,
ond nid yn ôl ein haeddiant
wyt ti'n delio â ni.

Arhoswn yn dawel
i deimlo
llif dy dangnefedd
yn llifo trosom.

Cyfnod o ddistawrwydd i fyfyrrio:

Cydadrodd neu gydganu Gweddi'r Arglwydd:

Cefndir:

Craidd geiriau Paul yw fod Crist wedi marw dros yr annuwiol, y pechadur. Efallai y byddai mynd i'r eithaf dros aelod o'r teulu neu ffrind yn ddigon anodd ond mae marw dros yr annheilwng, y diwerth yn dangos na all cariad fynd ymhellach. Nid dros y da a'r cyfiawn, nid dros ei ffrindiau'n unig y bu Iesu farw ond dros bobl oedd yn ei gasáu, ei ddirmygu, ei wawdio a'i anwybyddu. Cofleidio pawb mae marwolaeth Iesu a thrwy hynny dangos fod pob unigolyn o fewn terfynau'i gariad a'i gonsyrn. Ond nid Crist a fu farw yw Iesu ond Crist a atgyfodwyd ac ystyr hynny yw ei fod ef wrth law o hyd i'n cynorthwyo a'n harwain. Drwy ei farwolaeth mae Iesu'n dod â phechaduriaid i berthynas â Duw ond mae'n mynd ymlaen trwy ei atgyfodiad i'n helpu i beidio â phechu. Geiriau'r Beibl am hyn yw 'cyfiawnhad' a 'sancteiddhad'.

Cerdd:

Y Pasg

O Arglwydd y Gwanwyn, anadla drwy'r tir,
A deffro ein daear o gwsg sydd mor hir,
Boed gwres anorchfygol dy gariad dy hun
Yn ffrwydro gorfoledd yng nghalon pob un.

Dy nerth ar ein Daear, O! Arglwydd, y Wyrth,
Ddeisyfwn i dreiglo y meini o'r pyrth.
Dy nerth i gyfannu rhwygiadau yr oes,
Y nerth a goncwerodd waradwydd y Groes.

Llewyrcha, O! Arglwydd, oleuni dy ffydd
I symud ffôl rwystrau ein bywyd pob dydd,
I aileni'r cariad a buraist drwy boen
A'i wrid yn disgleirio tangnefedd yr Oen.

O ffynnon dy glwyfau daioni a dardd
Mor fywiol ei ffrydiau â'r chwys yn yr ardd,
Dros grastir ein bywyd, O! Arglwydd yr Had,
Llifeiried dy wanwyn yn ddwyfol fywhad.

Vernon Jones.

Emyn: 161. Caneuon Ffydd.

Llais 1:

Down yn ôl at y gair 'gras' a ymddangosodd bump o weithiau yng nghyfieithiad Gomer (1773 – 1825) o emyn Philip Doddridge (1702 – 1751) "Grace 'tis a charming sound".

"O Dduw" ac "i bawb" yw nodau amgen 'gras'. Ond beth sydd "O Dduw" ac "i bawb"? Beth yw cynnwys 'gras'? Yr ateb yw – dyfod i berthynas iawn â Duw. Credai'r Pharisead y gallai ddyfod i'r berthynas hon drwy gadw'r ddeddf – y datguddiad perffeithiaf o ewyllys Duw. Eithr profiad Paul wrth geisio dringo grisiau moesol y ddeddf oedd darganfod bod pob cam i fyny yn creu ymwybyddiaeth ddyfnach o

fethiant a pechadusrwydd (Rhuf 3: 20). Odid nag unig swydd y ddeddf yw datguddio anallu moesol y pechadur (Rhuf 7: 15). Os ceisir dianc rhag brath y gwirionedd hwn drwy ei anwybyddu, y canlyniad anochel yw syrthio i fagl hunangyfiawnder. (Rhuf 2: 17 – 24). Eithr yn ôl athrawiaeth Paul ni adawyd dyn yn anobaith y dewis rhwng anallu moesol a hunangyfiawnder. Ei efengyl yw “bod Duw yng Nghrist yn cymodi'r byd ag ef ei hun, heb gyfri iddynt eu pechodau” (2 Cor 5: 19), lluniaist y cam ym mherthynas Duw a dyn nid gan ddyn eithr gan Dduw ei hunan. “O Dduw” y mae'r waredigaeth. Ei weithgarwch costfawr ef yng Nghrist a'i cyflawnodd (2 Cor 5: 21). Y mae “i bawb” gan mai unig amod ei dderbyn yw nid bod yn lddew, na bod yn ddyn da, ond bod yn barod i adael Duw i wneud ei waith (hynny yw, ffydd) – amod sydd o fewn cyrraedd pawb.

Cododd gwrthwynebiad ffyrnicaf athrawiaeth gras o gamddeall Paul ar y pwynt hwn. Fe'i cyhuddir i ysgar crefydd a moesoldeb. Eithr yr hyn a fyn Paul yw dwyn crefydd a moesoldeb i'r berthynas iawn â'i gilydd.

Dysgai'r Phariseaid mai amod dyfod i berthynas iawn â Duw yw byw'n dda. Credai Paul mai amod byw'n dda yw dyfod i berthynas iawn â Duw. Iddo ei hunan y dyry'r Phariseaid y clod am ei gampau moesol. Myn Paul ei roddi i Dduw a diddymu'r “hunan” sydd o hyd yn llygru pob gweithred dda.

Isaac Thomas, Y Dysgedydd 1952

Cwestiynau i'w trafod:

Beth yw ystyr “gras fel ‘surprise’” mawr Duw i ddynion”?

Mae Paul wedi cael ei feirniadu gan lawer am gymhlethu efengyl Iesu Grist. Fyddech chi'n cytuno â hyn? O wrando ar y darlleniad o'i lythyr at y Rhufeiniaid beth fyddai eich barn chi?

Ydych chi'n cyd-fynd â'r syniad o Dduw yn tywallt ei gariad ar yr annheilwng fel esboniad ar y gair ‘gras’?

Fedrwch chi feddwl am enghreifftiau o ‘gawodydd gras’ yn eich bywyd chi neu'ch cydnabod?

Sut fyddech chi'n mynd ati i esbonio'r gair 'gras' i'r dosbarth derbyn.

Emyn: 311 Caneuon Ffydd

Stori i gloi:

Dyma enghraifft o ras Duw ym mywyd un dyn – John Newton.

Codai'r tonnau yn uwch ac yn uwch. Llifai dŵr y môr i mewn i'r llong. Swatiai'r llongwyr gyda'i gilydd gan feddwl yn siŵr mai hon fyddai'r fordaith olaf iddyn nhw i gyd. Dechreuodd ambell un o'r llongwyr ifanc grio'n hidl. Fel arfer, byddai'r llongwyr profiadol yn barod i'w cysuro a'u helpu ond, y tro hwn, roedd hyd yn oed y llongwyr profiadol yn fud. Hon oedd y storm waethaf: tybed a'i hon fyddai'r storm olaf i griw'r llong? Chwyrnai'r gwynt yn y rigin, hyrddiai'r tonnau'n fwy enbyd o funud i funud a'r llong yn cael ei thafllu fel corcyn yn y môr brochus.

Yn sydyn daeth teimlad rhyfedd dros un o'r llongwyr. Teimlad od iawn! Teimlai ei fod yn ddiogel. Nid oedd dim byd yn ei boeni. Daeth rhyw dangnefedd drosto. Teimlai'n sicr fod Duw yn ei warchod ac yn gwarchod gweddill y llongwyr. "Mi fydd popeth yn iawn," meddai John wrth ei gyd-longwyr. "Mae Duw yn sicr o ofalu amdanom." Ymhen awr neu ddwy roedd y gwynt wedi gostegu a'r glaw wedi peidio. Roedd y profiad a gafodd yn ystod y storm wedi ei sicrhau bod Duw yn bod.

Ond nid felly oedd hi yn hanes John Newton. Bu ei fam farw pan oedd yn blentyn saith mlwydd oed. Gan fod ei dad yn gaptin llong roedd hi'n anodd iddo fynd â'r bachgen gydag ef ar y llong, felly doedd yna ddim ond un peth i'w wneud a hynny oedd ei anfon i ysgol breswyl. Blynnyddoedd anhapus iawn oedd y blynnyddoedd yn yr ysgol. Roedd yn cael ei gam-drin gan y plant eraill. Un diwrnod, ac yntau yn un ar ddeg oed erbyn hyn, rhedodd o'r ysgol a mynd i lawr i lan y môr. Yn y porthladd roedd llong yn barod i adael ar ei thaith. Neidiodd ar y llong a dyna oedd ei hanes byth wedyn. Bywyd anodd oedd bywyd ar y llong bryd hynny. Ond gwaethygodd pethau'n ddirfawr. Cafodd ei ddal gan y pres gang.

Gwaith y rhain oedd cael digonedd o ddynion i ymuno â'r Llynges. Bellach roedd hi'n waeth o lawer. Dim ond gwaith ac ychydig o orffwys oedd bywyd i John a'i debyg erbyn hyn. Un noson, pan oedd yn synfyfyrion ar ei ben ei hun, meddylodd, "Mae bywyd yn anodd, yn llawn o beryglon a threialon.....fedra i ddim credu fod yna Dduw yn bod. Dydw i ddim am ddarllen y Beibl byth eto yn fy mywyd. A pheth arall, pan fydda i ar y tir mawr wna i byth fynd i mewn i eglwys. Does yna ddim Duw."

Gofynnodd i'r capten a gâi ei drosglwyddo i un o longau'r caethweision. Cafodd ei ddymuniad. Dyna lle bu ef am flynyddoedd wedyn yn cario caethweision o Affrica i wahanol rannau o'r byd. Roedd y rhan fwyaf o'r caethweision yn cael eu gwerthu i blanhigfeydd cotwm yn nhaleithiau deheuol America. Roedd y llongau'n orlawn a byddai llawer o'r caethweision yn marw ar y llongau cyn cyrraedd y planhigfeydd. Gwaith John ar y llong hon oedd eu cadw ar waelod y llong lle roedd hi'n dywyll fel y fagddu. Doedd llawer ohonyn nhw byth yn gweld golau dydd. Gwaeddai a rhegai ar y caethweision a'u trin yn union fel anifeiliaid rheibus. Un noson, pan gafodd gyfle i fwynhau ychydig o seibiant, gwelodd llyfr wedi cael ei daflu i gornel y cwch. Roedd wedi gweld y llyfr hwn ers dyddiau ond doedd o ddim wedi cael cyfle i edrych arno. Symudodd rai o'r celfi a chyrhaeddodd at y llyfr. Roedd rhai tudalennau wedi rhwygo ond dechreuodd ei ddarllen, "Wel dyma llyfr sych," meddai, "llyfr am Iesu Grist. Na, dydw i ddim am ddarllen dim amdano. Dydw i ddim am ddarllen dim am grefydd. Maen nhw'n dweud fod Iesu Grist yn fab Duw. Wel os nad oes yna Dduw felly doedd ganddo fo ddim mab." Taflodd y llyfr yn ôl i'r gornel. Syrthiodd i gysgu. Deffrodd a daeth yr ysfa i fynd yn ôl at y llyfr. Agorodd y llyfr unwaith yn rhagor. Dechreuodd ei ddarllen. Y tro hwn roedd geiriau'r llyfr yn dod yn fyw iddo. Gwelodd, am y tro cyntaf, y math o fywyd roedd wedi'i fyw. A'r noson honno cododd storm enbyd.....

Sgrifennodd am ei brofiad y noson honno, nid mewn llyfr ond mewn emyn. Mae'r emyn ar gael erbyn heddiw yn Gymraeg. "Rhyfeddol ras....." Yna ffarweliodd â'r angor a chafodd ei ordeinio'n offeiriad. Bu o gymorth i William Wilberforce yn ei waith o geisio dileu caethwasiaeth. Ond fel awdur yr emyn 'Amazing Grace' y cofir yn bennaf am John Newton. Ond cofiwch ei fod wedi sgrifennu oddeutu 288 o emynau i gyd.

Emyn:

Rhyfeddol ras! O'r fendith dlos
Achubodd walch fel fi;
Ar goll, fe'm caed, ac ar fy nos
Fe dorrodd gwawr yn lli.

Gras 'ddysgodd ofn i'm calon goll,
Gras 'chwalodd f'ofnau lu;
O awr y credu cyntaf oll,
Gras yw fy nhrysor cu.

Er gwaethaf llaid a maglau'r byd,
Clod byth i ras, 'rwy'n fyw!
A'r gras a'm diogelodd cyd
A'm dwg i nef fy Nuw.

Addawodd f'Arglwydd im bob da,
A'i air yw'n 'ngobaith hael;
Yn rhan a tharian y parha
Tra pery f'einioes wael.

Pan dderfydd ynni calon gnawd,
A'm bywyd yma ar ben,
Tragwyddol hedd a fydd i'm rhawd,
Gorfoledd hwnt i'r llen.

A ninnau yno, oesau'r rhod,
Fel disglair haul yn byw,
Ni dderfydd byth ddyrchafu clod
A mawl i'n Harglwydd Dduw.

John Newton cyf. Dafydd Owen.

Y Fendith:

Gras ein Harglwydd Iesu Grist, a chariad Duw, a chymdeithas yr
Ysbryd Glân fyddo gyda chwi oll." Amen.

2 Corinthiaid 13: 13.